

*Gorchymyn Drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Senedd o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ar gyfer cymeradwyaeth drwy benderfyniad y Cynulliad a Dau Dŷ'r Senedd.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2007 Rhif**

**Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL**

**DATGANOLI, CYMRU**

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd  
Deddfwriaethol) (Rhif 2) 2007**

*Gwnaed* - - - - *\*\*\**

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*Gosodwyd gerbron y Senedd* *\*\*\**

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1*

Yn Llys Palas Buckingham, y *\*\*\** dydd o *\*\*\** 2007

Yn bresennol

Ei Hardderchocaf Fawrhydi y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(a) gosodwyd drafft o'r gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Senedd a chymeradwywyd ef gan y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl a chyda chyingor ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 2) 2007 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

**Diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**

2.—(1) Diwygir Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.

---

(a) (p.32).

(2) Ym mater 5.10 o Faes 5 (addysg), hepgorer yr ail baragraff sy'n cynnwys is-baragraffau (a) i (o).

(3) Ym Maes 6 (amgylchedd), mewnosoder —

*“Matter 6.1*

Collection, management, treatment and disposal of waste.

*Matter 6.2*

Environmental protection, including pollution, nuisances and hazardous substances.”

(4) Ar ôl Maes 20, mewnosoder –

*“Excepted matters in Part 1 fields*

In the table below, the matters specified in the first column (“excepted matters”) are not included within the matters specified under the fields in this Part which are specified in the second column in the same row.

**TABLE**

<b>1.</b> Road freight transport services, including goods vehicles operating licensing.	Matters 6.1, 6.2
<b>2.</b> The regulation of the use of motor vehicles on roads, their construction and equipment and conditions under which they may be so used.	Matters 5.10, 6.1, 6.2
<b>3.</b> Road traffic offences.	Matter 5.10
<b>4.</b> Driver licensing.	Matter 5.10
<b>5.</b> Driving instruction.	Matter 5.10
<b>6.</b> Insurance of motor vehicles.	Matter 5.10
<b>7.</b> Drivers' hours.	Matter 5.10
<b>8.</b> Traffic regulation on special roads, pedestrian crossings, traffic signs and speed limits;	Matter 5.10
<b>9.</b> Public service vehicle operator	Matters 5.10

licensing.	
<p><b>10.</b> The provision and regulation of railway services, apart from financial assistance which—</p> <p>(a) does not relate to the carriage of goods,</p> <p>(b) is not made in connection with a railway administration order, and</p> <p>(c) is not made in connection with Council Regulation (EEC) 1191/69 as amended by Council Regulation (EEC) No. 1893/91 on public service obligations in transport.</p>	Matters 5.10
<b>11.</b> Transport security.	Matters 5.10
<b>12.</b> Shipping, apart from financial assistance for shipping services to, from or within Wales.	Matters 5.10, 6.1, 6.2
<b>13.</b> Navigational rights and freedoms, apart from regulation of works which may obstruct or endanger navigation.	Matters 6.1, 6.2
<b>14.</b> Technical and safety standards of vessels.	Matters 5.10, 6.1, 6.2
<b>15.</b> Harbours, docks, piers and boatslips, apart from those used or required wholly or mainly for the fishing or agricultural industries, for recreation or for communications between places in Wales.	Matters 5.10, 6.1, 6.2
<b>16.</b> Carriage of dangerous goods (including transport of radioactive material).	Matters 6.1, 6.2
<b>17.</b> Registration of local bus services, and the application and enforcement of traffic regulation conditions in relation to those services.	Matters 5.10

<p><b>18.</b> Energy conservation, apart from the encouragement of energy efficiency otherwise than by prohibition or regulation.</p>	Matter 6.2

”

Clerc y Cyfrin Gyngor

### **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”). Effaith y gorchymyn yw estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau newydd ar gyfer Cymru drwy Fesur o dan adran 93 o Ddeddf 2006.

Mae erthygl 2 yn mewnosod materion 6.1 a 6.2 newydd a thabl o faterion a eithrir ym maes 5 o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mewnosodir y materion newydd gan erthygl 2(3). Mae mater 6.1 ynghylch casglu, rheoli a thrin a gwaredu gwastraff. Mae mater 6.2 a fewnosodir gan erthygl 2(4) ynghylch diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys llygredd, niwsansys a sylweddau peryglus. Bydd unrhyw ddarpariaeth o Fesur Cynulliad sy'n ymwneud â materion newydd 6.1 a 6.2 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd telerau'r materion hynny ac adran 94(4) o Ddeddf 2006.

Mae'r tabl a fewnosodir gan erthygl 2(4) yn nodi'r materion a eithrir ac yn eu cysylltu â materion a bennir o dan y meysydd yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Effaith y tabl hwn yw na chynhwysir y materion a bennir yn y golofn gyntaf (“materion a eithrir”) yn y materion yn y meysydd a enwir yn yr ail golofn. Ni fydd y Cynulliad yn gallu gwneud darpariaeth mewn Mesur Cynulliad o dan adran 94(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ynghylch unrhyw beth yn y golofn gyntaf, hyd yn oed pe byddai fel arall yn ymwneud â'r materion a bennir yn yr ail golofn sy'n cael eu cynnwys yn y meysydd. Bydd y materion a eithrir yn y golofn gyntaf y tu allan i gwmpas y materion a bennir yn yr ail golofn y maent yn gysylltiedig â hwy.

Mae erthygl 2(2) yn diwygio mater 5.10 o ganlyniad i fewnosod y tabl o faterion a eithrir.